Adroddiad ar

Ysgol Gymuned Pentraeth

Pentraeth
Ynys Môn
LL75 8UP

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Pentraeth

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymuned Pentraeth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 65 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 7 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 22.9%) | 11.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 11.1%) | 24.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 24.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 06/01/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 22/03/2019 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 06/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Pentraeth yn gymuned hapus a chroesawgar sy’n rhoi pwyslais cyson ar les a datblygiad disgyblion a staff. Mae’r ethos cynhwysol a theuluol yn sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae wedi dechrau sefydlu prosesau hunanwerthuso effeithiol, sy’n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer lles a dysgu disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn chwarae rôl fuddiol a chefnogol yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu.

Mae medrau llafar disgyblion yn datblygu’n gadarn o oedran cynnar, ac maent yn dangos parch at gyfraniadau eraill. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion bob amser yn adeiladu’n ddigon effeithiol ar y medrau hyn wrth symud drwy’r ysgol.

Mae’r amgylchedd dysgu yn gynhwysol ac yn cefnogi datblygiad y disgybl cyfan. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n ddeallus i sicrhau darpariaeth gyfoethog. Maent yn dîm o staff cydwybodol sy’n canolbwyntio ar ddatblygu deilliannau disgyblion yn fwriadus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae gorddefnydd o fframweithiau parod yn arafu cynnydd disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn.

Mae’r pennaeth yn sicrhau bod lles staff yn ganolog i’w gwaith dyddiol. Caiff staff eu hannog i ddatblygu’n broffesiynol yn barhaus er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a’u harfogi i gyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau yn llawn. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff. Mae perthynas effeithiol iawn gyda rhieni a’r gymuned leol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Cryfhau medrau llafaredd disgyblion yn y Gymraeg

A2. Lleihau'r defnydd o fframweithiau parod er mwyn hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mewn cyfnod byr, mae’r pennaeth wedi gosod gweledigaeth glir sy’n seiliedig ar ethos gofalgar, cynhwysol a chefnogol. Mae’n arweinydd egnïol sy’n arddel diwylliant cryf o barch a gwerthfawrogiad ymysg yr holl staff, disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae’n gwireddu gwerthoedd yr ysgol, sef ‘Parch, Gonestrwydd, Ymdrech a Chyfrifoldeb’ yn llwyddiannus, ac yn ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac iach yn eu hysgol, a’u cymuned leol. Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae’r tîm gweithgar ac ymroddgar o athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio’n effeithiol er mwyn darparu darpariaeth gynhwysol mewn cyd-destun lleol.

Mae cymuned yr ysgol yn un lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel. Maent yn cael eu parchu a’u trin yn deg gan staff. Mae lefelau uchel o barch yn bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac maent yn cael eu trin yn deg. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn mwynhau eu tasgau ac yn ymroi i’w dysgu yn frwdfrydig.

Ar draws yr ysgol, mae’r cwricwlwm yn diwallu anghenion disgyblion yn fwriadus ac mae amrediad o brofiadau ysgogol yn galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o’u hardal leol, Cymru a’r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn dysgu am chwedlau a digwyddiadau hanesyddol pwysig yng Nghymru.

Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu’n gyson yn ystod eu hamser yn yr ysgol. O oedran cynnar, maent yn gwrando’n oddefgar ar gyflwyniadau oedolion ac ar ei gilydd, gan barchu cyfraniadau eraill yn dda iawn. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn y gymuned. Fodd bynnag, wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, nid yw’r disgyblion bob amser yn adeiladu ar eu medrau llafaredd a chyfathrebu yn ddigon effeithiol gydag oedolion a’u cyfoedion yn y Gymraeg.

Mae medrau darllen y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn ystod briodol o ffurfiau yn llwyddiannus. Mae staff yn manteisio ar gysylltiadau lleol i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion yn fedrus, er enghraifft wrth i’r disgyblion hynaf gydweithio â chwmni perfformio lleol i drefnu sioe yn yr ysgol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol. Maent yn defnyddio offer yn effeithiol i atgyfnerthu eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau yn fwriadus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn magu hyder wrth ddefnyddio apiau’n hyderus er mwyn recordio eu hunain yn gwneud cyflwyniadau yn yr ardal chwarae rôl. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn defnyddio meddalwedd penodol yn lwyddiannus i greu animeiddiad a

chyfansoddiadau sy’n datblygu medrau llafaredd a medrau perfformio’r disgyblion yn dda. Erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd amrywiol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth godio, anfon e-bost a chreu cyflwyniadau diddorol.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiol gyd-destunau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn arddangos dealltwriaeth dda o rifau negyddol wrth gymharu tymheredd copa'r Wyddfa a Llanberis.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol amrywiol sy’n cynnwys canu, dawnsio, a chwaraeon. Mae hyn yn meithrin eu hunanhyder a’u gallu mynegiannol, trwy gymryd rhan mewn sioeau a chyngherddau yn y gymuned, a chystadlaethau’r Urdd. Mae’r ysgol yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn eu cefnogi i werthfawrogi gwahanol gredoau ac i ddangos goddefgarwch ac ystyriaeth deg at safbwyntiau pobl eraill.

Mae athrawon yn defnyddio cydbwysedd o dechnegau effeithiol sy’n cynnwys gweithgareddau pâr a grŵp. Mae hyn yn datblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gosod amcanion clir ar ddechrau sesiynau ac yn defnyddio amcanion dysgu yn bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion tasgau. Mae llawer o wersi'n symud ar gyflymder addas ac yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud gorddefnydd o fframweithiau parod. Mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ehangu ar eu gwaith ysgrifennu ar adegau, ac yn llesteirio datblygiad eu medrau annibynnol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm cyfoethog sy’n cefnogi llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n cael eu effeithio gan dlodi, i wneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Maent yn cynnwys syniadau’r disgyblion yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy’n ennyn eu diddordeb ac yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt ddylanwadu ar gynnwys eu themâu tymhorol.

Mae arweinwyr yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau mathemateg y disgyblion. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad y staff yn effeithiol gan nodi targedau penodol i athrawon sy’n cyfateb i flaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol.

Mae pwyslais yr holl staff ar ddatblygiad y disgybl cyfan yn sicrhau bod yr amgylchedd ddysgu yn gynhwysol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion lles y disgyblion yn

gadarn. Golyga hyn fod llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy’n barod i ddysgu gan ddangos hyder a gwydnwch.

Mae gan y staff adnabyddiaeth dda iawn o anghenion pob plentyn. Mae’r pwyslais a roddir ar drafodaethau ymysg staff a rhieni ynghyd â chynnal asesiadau parhaus yn cyfrannu’n llwyddiannus at sicrhau darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn gadarn. Mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ar eu taith drwy’r ysgol ac yn dadansoddi’r wybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn amserol ac yn darparu rhaglen fuddiol o raglenni cefnogi sy’n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, wedi dechrau cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer adolygu cynnydd, nodi meysydd i’w gwella ac adnabod y camau i’w gweithredu i ddatblygu’r ysgol ymhellach. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau rhesymu disgyblion ac wedi gwneud gwelliannau addas sy’n dylanwadu’n gadarnhaol ar y medrau hyn.

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw’r perthynas glòs ac adeiladol sy’n bodoli gyda’r rhieni a’r gymuned leol. Mae rhieni yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau ac awgrymiadau, er enghraifft wrth gryfhau’r trefniadau cyfathrebu trwy gyflwyno calendr digwyddiadau ar wefan yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025